# City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd

# (7617-12)

**Fersiwn 1.0 (Chwefror 2023)**

## Llawlyfr Cymwysterau

# Cipolwg ar y cymhwyster

| | |
|---|---|
| **Maes pwnc** | Tir (Cadwraeth Amgylcheddol) |
| **Rhif City & Guilds** | 7617-12 |
| **Grŵp Oedran wedi'i gymeradwyo** | Cyn 16, 16+ |
| **Gofynion mynediad** | Dim |
| **Asesu** | Aseiniad |
| **Graddio** | Llwyddo/Methu |
| **Cymeradwyaethau** | Cymeradwyaeth llwybr carlam |
| **Deunyddiau cefnogi** | Llawlyfr cymwysterau, asesiadau enghreifftiol |
| **Cofrestru ac ardystio** | Gweler y Walled Garden/Catalog ar-lein am ddvddiadau olaf |

| Teitl a lefel | Rhif cymhwyster City & Guilds | Rhif Cyfeirio rheoleiddiol | ODDA | CAC |
|---|---|---|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd | 7617-12 | 610/1652/4 | 120 | 132 |

| Fersiwn a dyddiad | Manylion newid | Adran |
|---|---|---|
| 1.0 Chwefror 2023 | Fersiwn cychwynnol | Pob un |
| | | |

# Cynnwys

Cipolwg ar y cymhwyster 2

Cynnwys 4

1 Cyflwyniad 6

Stwythur 8

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) 8

2 Gofynion y ganolfan 9

Cymeradwyaeth 9

Gofynion adnoddau 9

Sicrhau ansawdd 9

Gofynion mynediad dysgwyr 10

Cyfyngiadau oed 10

Mynediad i asesiad ac ystyriaethau arbennig 10

3 Cyflwyno'r cymhwyster 11

Asesiad cychwynnol a sefydlu 11

Deunyddiau cefnogi 11

4 Asesu 12

Asesu'r cymhwyster 12

Strategaeth asesu 12

Cyfyngiadau amser 12

Asesiadau ysgrifenedig 12

Manylebau profion 13

5 Graddio 17

Graddio'r cymhwyster 17

6 Unedau 18

Strwythur yr unedau 18

Arweiniad ar gyflwyno'r unedau 18

| | | |
|---|---|---|
| **Uned 202** | **Cynaliadwyedd** | **19** |
| **Uned 203** | **Amgylchedd** | **22** |
| **Uned 204** | **Newid hinsawdd** | **26** |
| **Uned 205** | **Sero net** | **30** |
| **Atodiad 1** | **Perthynas i gymwysterau eraill** | **34** |
| **Atodiad 2** | **Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol** | **35** |

# 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych beth sydd angen i chi ei wneud i gyflwyno'r cymhwyster:

| Maes | Disgrifiad |
|---|---|
| Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at ddysgwyr sy'n dymuno deall arferion gwaith cynaliadwy ar gyfer swydd benodol, rôl swydd yn y dyfodol a hyfforddiant parhaus. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i'r rhai sydd am weithio o fewn cynaliadwyedd neu sydd wedi cael cyfrifoldeb am gynaliadwyedd o fewn eu sefydliadau. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio o fewn diwydiannau tir (cadwraeth amgylcheddol).<br>Mae'r cymhwyster hwn hefyd yn addas ar gyfer y rhai sy'n dymuno datblygu neu wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a sectorau. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol i fynd ymlaen i rôl Ymgynghorydd/Cydlynydd/Swyddog Cynaliadwyedd a'r rhai sydd â rolau swydd sydd â chyfrifoldebau am adolygu cynaliadwyedd a chynllunio o fewn busnesau a sefydliadau. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gwmpasu? | Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r termau amgylchedd, cynaliadwyedd, newid hinsawdd a sero net fel y maent yn berthnasol i ddyfodol gwyrdd.<br>Bydd dysgwyr yn archwilio diffiniadau, categorïau, cydrannau ac effeithiau dynol ac an-ddynol yr amgylchedd.<br>Bydd dysgwyr yn archwilio'r diffiniadau, pileri, actorion a thechnolegau gwyrdd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Byddant yn archwilio pynciau nwyon tŷ gwydr, ffynonellau, targedau a'u heffeithiau ar newid hinsawdd. Bydd dysgwyr yn archwilio'r cyd-destun carbon, ôl-troed carbon yn ogystal â pholisi cenedlaethol a rhyngwladol ar sero net. |
| Pa gyfleoedd i symud ymlaen i ddysgwyr yno? | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i roi gwybodaeth a dealltwriaeth o gynaliadwyedd, amgylchedd, newid hinsawdd a sero net i'w galluogi i symud i swyddi fel Ymgynghorydd Cynaliadwyedd/ Cydlynydd. Gall y dysgwr hefyd symud ymlaen i raglen lefel 3 a/neu rôl rheolwr cynaliadwyedd.<br>Gall fod yn fan cychwyn ar gyfer dilyniant gyrfa lle gall dysgwyr ddatblygu ymhellach i rolau proffesiynol wrth iddynt ymwneud â'r economi werdd.<br>Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn symud ymlaen i: |

| Maes | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | Lefel 3 Dyfarniad mewn Rheoli Busnes ar gyfer y Sector Tir ac Amgylchedd;<br>Lefel 3 Diploma mewn Cadwraeth Amgylcheddol yn y gwaith. |
| Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad ag arbenigwyr diwydiant a darlithwyr ac aseswyr sefydledig. |
| Ydy e'n rhan o fframwaith neu gynllun prentisiaeth? | Nid prentisiaeth yw'r Dystysgrif Lefel 2 mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd, ond gellid ei gymryd fel cymhwyster hyfforddiant gwerth ychwanegol i ffwrdd o'r gwaith i alluogi prentisiaid i ddysgu am y diwydiant Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd sy'n datblygu. Gall gael ei ymgorffori yn nhaith ddysgu'r prentisiaid i gefnogi perthnasedd i hinsawdd bresennol y diwydiant Gellir cyflwyno'r Dystysgrif hon fel cymhwyster annibynnol neu ei defnyddio mewn rhaglen sefydlu neu ei hintegreiddio o fewn rhaglen astudio hirach mewn maes galwedigaethol. |

## Strwythur

Er mwyn cyflawni **Lefel 2 Tystysgrif City & Guilds mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd**, rhaid i ddysgwyr gyflawni **pedair** uned orfodol.

| Rhif uned City & Guilds | Teitl yr uned | ODDA |
|---|---|---|
| **Unedau gorfodol:** | | |
| Rhaid i ddysgwyr gyflawni **pedair** uned orfodol. | | |
| 202 | Cynaliadwyedd | 30 |
| 203 | Amgylchedd | 30 |
| 204 | Newid hinsawdd | 30 |
| 205 | Sero net | 30 |

## Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC)

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) yw nifer yr oriau amcanol sy'n cynrychioli amcangyfrif o gyfanswm yr amser y gellid disgwyl yn rhesymol i ddysgwr ddangos cyflawniad o lefel cyrhaeddiad angenrheidiol ar gyfer dyfarnu cymhwyster.

Mae CAC yn cynnwys y ddwy elfen ganlynol:

1) Nifer yr oriau y mae sefydliad dyfarnu wedi eu neilltuo i gymhwyster Dysgu dan Arweiniad, ac
2) Amcangyfrif o nifer yr oriau y bydd dysgwyr yn debygol yn rhesymol o'u treulio wrth baratoi, astudio neu unrhyw ffurf arall o gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys asesu, sy'n digwydd fel y cyfarwyddir - ond yn wahanol i Ddysgu o dan Arweiniad, nid o dan arweiniad neu oruchwyliaeth uniongyrchol - gan ddarlithydd, goruchwyliwr, tiwtor neu ddarparwr addysgu neu hyfforddiant priodol, arall.

| Teitl a lefel | ODDA | CAC |
|---|---|---|
| City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd | 120 | 132 |

# 2 Gofynion y ganolfan

## Cymeradwyaeth

### Cymeradwyaeth llwybr carlam

Os yw eich canolfan yn ganolfan gymeradwy yna gallwch wneud cais am gymeradwyaeth llwybr carlam ar gyfer 7617-12 gan ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo llwybr carlam, sydd ar gael o wefan City & Guilds.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen llwybr carlam os:

- na fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y cymwysterau eu cyflwyno, ac
- os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo yn nodiadau canllaw'r ffurflen llwybr carlam.

Mae cymeradwyaeth llwybr carlam ar gael am 12 mis o lansio'r cymhwyster. Ar ôl 12 mis, bydd rhaid i ganolfannau fynd trwy'r Broses Cymeradwyo Cymwysterau safonol. Mae'r ganolfan yn gyfrifol am wirio bod y gymeradwyaeth llwybr carlam yn dal mewn grym ar adeg gwneud cais.

Cyfeiriwch at y ddogfen **Safonau Sicrhau Ansawdd: Proses Cymeradwyo Canolfan** am wybodaeth bellach.

Dylai staff y ganolfan ymgyfarwyddo â strwythur, cynnwys a gofynion asesu'r cymhwyster cyn cynllunio rhaglen cwrs.

## Gofynion adnoddau

### Staffio canolfannau

Rhaid i staff sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylent:

- fod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y maes/meysydd y maent yn darparu hyfforddiant ar ei gyfer a/neu fod â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar yr un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- bod â phrofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddant yn ei asesu • meddu ar brofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

### Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Disgwylir i ganolfannau gefnogi eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol o ran y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd, a'i bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

## Sicrhau Ansawdd

Rhaid i ganolfannau cymeradwy gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth a'r asesiad gorau posibl o gymwysterau. Mae ein proses sicrhau ansawdd yn cynnwys adolygiad o weithdrefnau mewnol y canolfannau eu hunain ar gyfer monitro ansawdd. Gwneir hyn trwy ein proses gymeradwyo canolfannau a chymwysterau a phroses fonitro barhaus Sicrhau Ansawdd Allanol (SAA/EQA). Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol, ac mae City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol. Am ragor o fanylion am hyn ewch i ddogfennau Safonau Sicrhau Ansawdd ar wefan City & Guilds.

Caiff safonau a sicrhau ansawdd cadarn eu cynnal trwy ddefnyddio:

- Sicrhau ansawdd mewnol
- Sicrhau ansawdd allanol City & Guilds

Er mwyn cynnal y rôl sicrhau ansawdd, rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

- feddu ar arbenigedd dysgu priodol a gwybodaeth alwedigaethol
- meddu ar brofiad mewn rheoli ansawdd/sicrhau ansawdd mewnol
- meddu ar gymhwyster dysgu/hyfforddi/asesu priodol neu weithio tuag at hyn
- bod yn gyfarwydd â'r cynnwys galwedigaethol a thechnegol a gwmpesir o fewn y cymhwyster.

Caiff sicrhau ansawdd allanol ar gyfer y cymhwyster ei ddarparu gan broses SAA (EQA) City & Guilds. Penodir Sicrhawyr Ansawdd Allanol gan City & Guilds i gymeradwyo canolfannau, ac i fonitro'r asesiad a sicrhau ansawdd mewnol a gynhelir gan ganolfannau. Caiff sicrhau ansawdd allanol ei gynnal i sicrhau bod yr asesiad yn ddilys ac yn ddibynadwy, a bod ymarfer asesu da mewn canolfannau.

Rôl y Sicrhawr Ansawdd allanol yw:

- rhoi cyngor a chefnogaeth i staff canolfannau
- sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau o fewn a rhwng canolfannau drwy ddefnyddio samplu systematig
- rhoi adborth i ganolfannau ac i City & Guilds.

## Gofynion mynediad dysgwr

Nid yw City & Guilds yn gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

## Cyfyngiadau oedran

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer dysgwyr oed 14-16/ 16 neu hŷn.

## Mynediad at asesiad ac ystyriaeth arbennig

I gael gwybodaeth am sut i wneud cais am drefniadau mynediad, cyfeiriwch at ***Sut a phryd i wneud cais am drefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig (cityandguilds.com)***

# 3 Cyflwyno'r cymhwyster

## Asesiad cychwynnol ac ymsefydlu

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau eu rhaglen i nodi:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cymorth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymhwyster
- unrhyw unedau y maent eisoes wedi'u cwblhau, neu gredyd y maent wedi'i gronni sy'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu fel bod y dysgwyr yn deall gofynion y cymhwyster yn llawn, eu cyfrifoldebau fel dysgwyr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

## Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut i gael mynediad |
|---|---|
| Llawlyfr cymwysterau | www.cityandguilds.com |
| Asesiadau enghreifftiol | www.cityandguilds.com |

# 4 Asesu

## Asesu'r cymhwyster

Rhaid i ymgeiswyr:

- gwblhau yn llwyddiannus un aseiniad ar gyfer pob uned orfodol.

| Mathau asesu | | | |
|---|---|---|---|
| **Uned** | **Teitl** | **Dull asesu** | **Ble i gael deunyddiau asesu** |
| 202 | Cynaliadwyedd | Aseiniad wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n fewnol | **www.cityandguilds.com** |
| 203 | Amgylchedd | Aseiniad wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n fewnol | **www.cityandguilds.com** |
| 204 | Newid hinsawdd | Aseiniad wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n fewnol | **www.cityandguilds.com** |
| 205 | Sero net | Aseiniad wedi'i osod yn allanol, a'i farcio'n fewnol | **www.cityandguilds.com** |

## Strategaeth asesu

Mae City & Guilds wedi ysgrifennu'r asesiadau canlynol i'w defnyddio gyda'r cymhwyster hwn:

- aseiniadau byw y gellir eu lawrlwytho o wefan City & Guilds
- aseiniadau enghreifftiol y gellir eu lawrlwytho o wefan City & Guilds.

## Cyfyngiadau amser

Rhaid cadw at y canlynol i asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid cwblhau'r asesiad o fewn cyfnod cofrestru'r dysgwr.

## Asesiadau Ysgrifenedig

Dylid cynnal pob asesiad ysgrifenedig yn unol â Chyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau (ICE) y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC/JCQ). Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth fanwl am weinyddu arholiadau cyn, yn ystod ac ar ôl yr arholiadau.

## Manylebau profion

Gall y ffiniau hyn gael eu hamrywio ychydig er mwyn sicrhau tegwch pe bai unrhyw amrywiadau yn anhawster y prawf yn cael eu nodi.

Mae'r ffordd y mae papur cwestiynau pob aseiniad yn ymdrin â'r wybodaeth wedi'i nodi yn y tabl isod:

**Teitl yr asesiad:** Cynaliadwyedd

**Math asesiad:** Aseiniad

**Amodau asesu:** Llyfr agored

**Hyd:** 6 awr

**Graddio:** Llwyddo/Methu

**Marc Llwyddo:** Gosodir y marc llwyddo ar gyfer yr aseiniad hwn ar 60 %.

Gall y ffiniau hyn gael eu hamrywio ychydig er mwyn sicrhau tegwch pe bai unrhyw amrywiadau yn anhawster y prawf yn cael eu nodi.

| **Prawf:** | **Hyd: 6 awr** | | |
|---|---|---|---|
| **Uned** | **Canlyniad** | **Nifer y marciau** | **Canran %** |
| 202 | CD1 Deall sylfeini cynaliadwyedd | 30 | 30 |
| | CD2 Deall dylanwad deddfwriaeth a chynlluniau'r llywodraeth | 35 | 35 |
| | CD3 Deall technolegau gwyrdd i gefnogi nodau cynaliadwyedd | 35 | 35 |
| | **Cyfanswm** | 100 | 100% |

**Teitl yr asesiad:** Amgylchedd

**Math asesiad:** Aseiniad

**Amodau asesu:** Llyfr agored

**Hyd:** 6 awr

**Graddio:** Llwyddo/Methu

**Marc Llwyddo:** Gosodir y marc llwyddo ar gyfer yr arholiad hwn ar 60 %.

Gall y ffiniau hyn gael eu hamrywio ychydig er mwyn sicrhau tegwch pe bai unrhyw amrywiadau yn anhawster y prawf yn cael eu nodi.

| **Prawf:** | **Hyd: 6 awr** | | |
|---|---|---|---|
| **Uned** | **Canlyniad** | **Nifer y marciau** | **Canran %** |
| 203 | CD1 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar yr amgylchedd | 34 | 34 |
| | CD2 Deall elfennau'r amgylchedd a sut maen nhw'n cael eu gwarchod | 42 | 42 |
| | CD3 Deall yr effeithiau amgylcheddol ar y blaned yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang | 24 | 24 |
| | **Cyfanswm** | **100** | **100%** |

**Teitl yr asesiad:** Newid hinsawdd

**Math asesiad:** Aseiniad

**Amodau asesu:** Llyfr agored

**Hyd:** 6 awr

**Graddio:** Llwyddo/Methu

**Marc Llwyddo:** Gosodir y marc llwyddo ar gyfer yr arholiad hwn ar 60 %.

Gall y ffiniau hyn gael eu hamrywio ychydig er mwyn sicrhau tegwch pe bai unrhyw amrywiadau yn anhawster y prawf yn cael eu nodi.

| **Prawf:** | **Hyd: 6 awr** | | |
|---|---|---|---|
| **Uned** | **Canlyniad** | **Nifer y marciau** | **Canran %** |
| 204 | CD1 Deall achosion newid hinsawdd byd-eang | 28 | 28 |
| | CD2 Deall effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd | 24 | 24 |
| | CD3 Deall ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr | 48 | 48 |
| | **Cyfanswm** | **100** | **100%** |

**Teitl yr asesiad:** Sero net

**Math asesiad:** Aseiniad

**Amodau asesu:** Llyfr agored

**Hyd:** 6 awr

**Graddio:** Llwyddo/Methu

**Marc Llwyddo:** Gosodir y marc llwyddo ar gyfer yr arholiad hwn ar 60 %.

Gall y ffiniau hyn gael eu hamrywio ychydig er mwyn sicrhau tegwch pe bai unrhyw amrywiadau yn anhawster y prawf yn cael eu nodi.

| **Prawf:** | **Hyd: 6 awr** | | |
|---|---|---|---|
| **Uned** | **Canlyniad** | **Nifer y marciau** | **Canran %** |
| 204 | CD1 Deall sut caiff allyriadau eu rheoli a'u lleihau | 20 | 20 |
| | CD2 Deall allyriadau carbon sero net | 21 | 21 |
| | CD3 Deall polisïau a thargedau sero net | 26 | 26 |
| | CD4 Deall ôl troed carbon | 33 | 33 |
| | **Cyfanswm** | **100** | **100%** |

# 5 Graddio

## Graddio'r cymhwyster

Bydd yr asesiad sengl yn cynnig gradd Llwyddo/Methu a dyma fydd gradd gyffredinol y cymhwyster.

Am fanylion llawn ar sut i raddio'r cymhwyster, cyfeiriwch at y Pecyn Asesu sydd ar gael ar dudalen cymwysterau **www.cityandguilds.com**.

Bydd City & Guilds yn darparu'r deunyddiau asesu canlynol:

- pecynnau aseiniadau ac atebion, gan gynnwys gwahanol fersiynau

Mae'r deunyddiau asesu wedi'u diogelu gan gyfrinair a gellir dod o hyd iddynt ar wefan City & Guilds:

https://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/land-basedservices/environment-countryside-and-conservation/7617-level-2-award-certificate-insustainability-and-the-green-environment#tab=information

Mae'r cyfrinair ar gael i ganolfannau cofrestredig yn y Walled Garden.

# 6 Unedau

## Strwythur yr unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- Teitl
- Lefel
- Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)
- Math asesiad
- Nod
- Canlyniadau dysgu, sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu
- Datganiadau ystod.

Rhaid i ganolfannau ddarparu ehangder llawn yr ystod. Mae’n bosibl na fydd offer neu nwyddau arbenigol ar gael i bob canolfan, felly dylai canolfannau sicrhau bod eu darpariaeth yn cwmpasu eu defnydd.

## Arweiniad ar gyfer cyflwyno'r unedau

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys pedair **uned**. Mae uned yn disgrifio'r hyn a ddisgwylir gan berson cymwys mewn agweddau penodol ar ei swydd.

Rhennir pob **uned** yn **ganlyniadau dysgu** sy’n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai dysgwr feddu arnynt.

Mae gan bob **canlyniad dysgu** set o **feini prawf asesu** (gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf dymunol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni.

Mae datganiadau **ystod** yn diffinio ehangder neu gwmpas canlyniad dysgu a'i feini prawf asesu drwy nodi'r amgylchiadau amrywiol ar gyfer eu defnyddio.

# Uned 202 Cynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODDA** | 30 |
| **Math asesiad:** | Aseiniad |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn datbyglu dealltwriaeth o Gynaliadwyedd fel y mae'n perthyn i ddyfodol sgiliau gwyrdd.<br>Bydd yn archwilio cynaliadwyedd yn ogystal â chymhwyso eu dealltwriaeth i sector diwydiant penodol. |

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD1 Deall sylfeini cynaliadwyedd

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA1.1 esbonio sylfeini cynaliadwyedd
MPA.2 nodi'r **defnydd o adnoddau** mewn cymdeithas
MPA1.3 nodi ffyrdd **o wella cynaliadwyedd**
MPA1.4 disgrifio **buddion economaidd a chymdeithasol** cynaliadwyedd

## Ystod

MPA1.1 **Sylfeini**

- defnyddio adnoddau: cyfredol, dyfodol, difrod i adnoddau hyd yn hyn
- cadwraeth yr amgylchedd
- cadwraeth bioamrywiaeth y blaned
- cadwraeth adnoddau dynol
- rheoli poblogaeth a chadw trefn
- gofyniad targedau newid hinsawdd

MPA1.2 **defnyddio adnoddau**

- anadnewyddadwy: glo, nwy naturiol ac olew
- adnewyddadwy: ynni solar, ynni gwynt, ynni llanw, ynni dŵr, biomas, geothermol
- heriau'r gadwyn gyflenwi: caffael yn lleol, argaeledd cyflenwadau, prinder sgiliau, logisteg, cyflenwad ynni

MPA1.3 **gwella cynaliadwyedd**

- llygredd: dŵr, aer, tir
- gwastraff: tirlenwi, defnyddio deunyddiau, gwaredu diogel

- lleihau allyriadau carbon: tanwyddau ffosil, gweithgynhyrchu a chludiant

MPA.4 **buddion economaidd a chymdeithasol**

- buddion cymdeithasol: iechyd, llesiant ffisegol a chorfforol, diogelwch a diogeled: cyfraddau trosedd a fandaliaeth is; datblygiad cymunedol
- buddion economaidd: adfywio trefol a gwell cyfleusterau: gofal iechyd, yr amgylchedd adeiledig, hamdden, a thwristiaeth, arloesi technolegol, cyflogaeth, hyfforddiant, uwchsgilio, cyfleoedd gyrfa newydd

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD2 Deall dylanwad deddfwriaeth a chynlluniau'r llywodraeth

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA2.1 nodi **deddfwriaeth** sy'n cefnogi cynaliadwyedd a'r amgylchedd gwyrdd
MPA2.2 nodi **nodau datblygu cynaliadwy** y gellir eu defnyddio i gefnogi cynaliadwyedd ar lefel leol
MPA2.3 disgrifio sut mae deddfwriaeth a pholisïau'n gallu **gwella cynaliadwyedd yn y dyfodol** MPA2.4 disgrifio sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cefnogi **cynaliadwyedd mewn sector diwydiant penodol**

---

## Ystod

MPA2.1 **deddfwriaeth**

- Deddfwriaeth llywodraeth: Deddf yr Amgylchedd (2021)/Rheoliadau Gwastraff Peryglus (diwygiad 2005/2016)/Deddf yr Amgylchedd (1995)/Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)/ Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990))/ Cyfarwyddeb Gwastraff Cyfarpar Trydanol ac Electronig (WEEE) (2007)/Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2010)/Deddf Newid hinsawdd (2008)/Deddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy (2006)

MPA2.2 **nodau datblygu cynaliadwy**

- gosod safonau'n fyd-eang: Cytundeb Paris, Cynhadledd Partïon (COP), y 17 nod datblygu cynaliadwy, y comisiwn coedwigaeth, Cenhedloedd Unedig
- gosod safonau lleol: polisi cyngor
- cyfrifoldeb personol: yn lleol, genedlaethol ac yn fyd-eang

MPA2.3 **gwella cynaliadwyedd**

- effeithlonrwydd ynni
- aer glân, dŵr glân, cadwraeth tir a bioamrywiaeth, atal datgoedwigo
- llai o allyriadau carbon, niwtraliaeth carbon
- newid hinsawdd: tueddiadau tymheredd byd-eang
- dyletswydd a chyfrifoldebau

MPA2.4 **cynaliadwyedd mewn sector diwydiant penodol**

- sectorau:  adeiladu, iechyd, gofal, addysg, gweithgynhyrchu, diwydiant, cyllid, lletygarwch, hamdden, manwerthu, diwydiannau digidol neu gyfathrebu, gwallt a harddwch, chwaraeon
- bywyd bob dydd: safonau byw, dewisiadau dull o fyw

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD3  Deall sut mae technolegau gwyrdd yn cefnogi nodau cynaliadwyedd

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA3.1 nodi **technolegau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg**
MPA3.2 disgrifio **effaith technoleg werdd** trwy arfer cynaliadwy
MPA3.3 esbonio'r **dulliau** y gellir eu defnyddio i gyrraedd cynaliadwyedd
MPA3.4 esbonio sut mae **technolegau gwyrdd ac arfer cynaliadwy'n** gallu gwella sector diwydiant penodol

---

## Ystod

MPA3.1  **technolegau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg**

- technolegau adnewyddadwy: solar, llanw, gwynt, hydrogen, geothermol, aer/dŵr /gwres o'r ddaear, mesuryddion ynni clyfar a chompostio
- deunyddiau cynaliadwy/gwyrdd: bioblastigion, pren laminedig croes (CLT), ffibr carbon, toeon gwyrdd bioamrywiol, bioffibrau, inswleiddio gwlân defaid, deunyddiau ag ynni ymgorfforol isel

MPA3.2 **effaith technoleg werdd**

- gwell rheolaeth o ddefnydd ynni
- newidiadau ymddygiad: busnes, cymuned, personol
- hyfforddiant a chyfleoedd gyrfa
- ariannol: cyfle i fuddsoddi ac arbedion ynni
- gwell ansawdd nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau e.e. ceir trydan, peiriannau golchi effeithlon o ran ynni

MPA3.3 **dulliau**

- ailddefnyddio deunyddiau, uwchgylchu
- lleihau: defnydd o ynni, allyrru carbon, gwastraff gan gynnwys ailgylchu
- uwchraddio eiddo (diwydiannol, masnachol, domestig)

MPA3.4 **technolegau gwyrdd ac arfer cynaliadwy** trosolwg o allyriadau carbon

- dulliau o wella effeithlonrwydd ynni
- potensial am ddefnyddio ynni adnewyddadwy
- effaith gwelliannau

# Uned 203 Amgylchedd

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODDA** | 30 |
| **Math asesiad:** | Aseiniad |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o brif nodweddion yr amgylchedd a dulliau i gefnogi dyfodol sgiliau gwyrdd.<br>Bydd dysgwyr yn archwilio amgylchedd yn gyffredinol yn ogystal â chymhwyso eu dealltwriaeth i sector. |

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD1 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar yr amgylchedd

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA1.1 diffinio **agweddau sylfaenol** yr amgylchedd naturiol
MPA1.2 nodi **heriau amgylcheddol** i'r amgylchedd naturiol
MPA1.3 nodi **sefydliadau a pholisïau** sydd yn eu lle i warchod yr amgylchedd
MPA1.4 disgrifio **effaith** y cynlluniau, y polisïau, a deddfwriaeth ar yr amgylchedd

## Ystod

MPA1.1 **agweddau sylfaenol**

- tir: ardaloedd cras, fflora a ffawna
- môr: bywyd morol, llystyfiant morol, rhewlifoedd
- aer: ansawdd aer, disbyddiad osôn

MPA1.2 **heriau amgylcheddol**

- colli cynefinoedd: defnydd tir
- llygredd o brosesau diwydiannol
- llygredd o ymyrraeth ddynol
- twf poblogaeth: mwy o alw am fwyd, dŵr, tai, ynni, gofal iechyd, cludiant

MPA1.3 **sefydliadau a pholisïau**

- rhyngwladol: y Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd, Cynhadledd Partïon (COP), Greenpeace
- **sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol:** Royal Society of Wildlife Trusts, Cyfeillion y Ddaear, Cadwch Gymru'n Daclus, The British Ecology Society, Green Alliance, SEPA, DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd, NIEA, Cyfoeth Naturiol Cymru

- deddfwriaeth a pholisïau: nodau datblygu cynaliadwy, cynlluniau rheoli tir amgylcheddol, cymhelliant ffermio cynaliadwy, natur leol ac adfer tir

MPA1.4 **effaith**

- cyfranogaeth fyd-eang
- cwrdd â galwadau: defnydd dir, ffermio, cyflenwadau nwyddau a gwasanaethau
- cadwraeth rhywogaethau
- ynni fforddiadwy, biliau gostyngol
- ailgylchu, llai o wastraff
- atebolrwydd: arweinwyr a dinasyddion, gadw at reoliadau

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD2 Deall elfennau'r amgylchedd a sut maen nhw'n cael eu gwarchod

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA2.1 disgrifio effaith y **Deddfau Gwarchod Amgylcheddol, symbolau ac arwyddion**
MPA2.2 esbonio sut mae **data yn cefnogi** gwarchod yr amgylchedd
MPA2.3 disgrifio **buddion** gwarchod yr amgylchedd
MPA2.4 disgrifio sut gall **sectorau diwydiant** effaithio ar yr amgylchedd lleol

---

## Ystod

MPA2.1 **Deddfau Gwarchod Amgylcheddol, symbolau ac arwyddion**

- Asiantaeth yr Amgylchedd, Deddf Amgylcheddol, Deddf Llygredd, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Deddf Newid hinsawdd, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)
- symbolau perygl, symbolau ailgylchu a chadwraeth

MPA2.2 **data'n cefnogi**

- gosod safonau: datblygu deddfwriaeth
- rheoli ansawdd: defnyddiau, safonau adeiladau, profi
- atebolrwydd: gosod cyfrifoldeb ar arweinwyr, yr hil ddynol
- twf y dyfodol sy'n gynaliadwy ac yn cefnogi galwadau anghenion dynol

MPA2.3 **buddion**

- cadwraeth tir, cynefinoedd a bywyd gwyllt
- iechyd a hylendid: argaeledd dŵr glân, argaeledd bwyd, systemau gwastraff effeithlon
- ailddefnyddio, ailgylchu, lleihau a disodli
- gymuned, busnes a phersonol

MPA2.4 **sector diwydiant**

- trwyddedau: trwyddedau amgylcheddol a chaniatâd o fath arall

- addysg, hyfforddiant, cyflogaeth ac uwchsgilio
- dylanwad cyrff proffesiynol a masnach
- cymhellion ariannol: grantiau, cymorthdaliadau
- polisïau a gweithdrefnau cyngor lleol
- datblygu polisïau a gweithdrefnau busnes

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD3 Deall effeithiau lleol, cenedlaethol a byd-eang ar yr amgylchedd

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA3.1 nodi **effeithiau dynol** posibl ar yr amgylchedd
MPA3.2 disgrifio **buddion tymor hir** gwarchod yr amgylchedd
MPA3.3 esbonio sut mae **cyfrifoldeb personol** yn gallu gwella dyfodol yr amgylchedd

---

## Ystod

MPA3.1 **effeithiau dynol**

- traul ormodol; gwastraff bwyd, plastigion, defnydd ynni, ffasiwn gyflym
- gwrthwynebiad i newid
- newid arferion gweithio: defnyddio safle, gweithio o'r cartref
- defnyddio cludiant: rhannu car, dibynnu ar gerbydau modur, hediadau, ôl troed carbon

MPA3.2 **buddion tymor hir**

- gwell llesiant, agweddau, dulliau o fyw
- twf a datblygiad cymunedol; gwarchod y dreftadaeth leol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gwell amgylcheddau lleol
- gwarchod bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, aer glanach, llai o orlifo, llai o danau fforest a goblygiadau newid hinsawdd eraill
- cyfleoedd cyflogaeth newydd a rolau gyrfa
- ynni adnewyddiadau fforddiadwy: biliau ynni is
- amaethyddiaeth a ffermio: cwrdd â galwadau twf yn y boblogaeth

MPA3.3 **cyfrifoldeb personol**

- gweithredu personol/ bod yn fodel rôl
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus
- arferion cynaliadwy gartref neu yn y gweithle
- gwell cynlluniau busnes yn y cartref neu'r busnes

# Uned 204 Newid hinsawdd

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODDA** | 30 |
| **Math asesiad:** | Aseiniad |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o newid hinsawdd a sut mae'n perthyn i ddyfodol sgiliau gwyrdd.<br>Bydd yn archwilio nwyon tŷ gwydr, ffynonellau, targedau ac effeithiau ar newid hinsawdd yn gyffredinol yn ogystal â chymhwyso eu dealltwriaeth i'w sector astudio |

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD1 Deall achosion posibl newid hinsawdd byd-eang

### Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA1.1 disgrifio'r **effaith tŷ gwydr**
MPA1.2 nodi'r prif **nwyon tŷ gwydr**
MPA1.3 esbonio cysyniad **cywerthedd carbon**
MPA1.4 disgrifio **effeithiau** posibl effaith tŷ gwydr ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gynhesu byd-eang a newid hinsawdd

## Ystod

MPA1.1 **effaith tŷ gwydr**

- ynni solar
- atmosffer
- trap ymbelydredd is-goch
- cynhesu

MP1.2 **nwyon tŷ gwydr**

- carbon deuocsid
- methan
- ocsid nitraidd
- anwedd dŵr
- osôn

MPA1.3 **cywerthedd carbon**

- defnydd cywerthedd carbon

- carbon deuocsid (uned sengl)
- methan ac ocsid nitraidd

MPA1.4 **effaith**

- effaith tŷ gwydr ar gynhesu ac oeri byd-eang
- nwyon tŷ gwydr ar effaith tŷ gwydr
- newidiadau cynhesu byd-eang ar hinsawdd y ddaear

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD2 Deall effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA2.1 disgrifio **effeithiau cynradd** cynhesu byd-eang
MPA2.2 disgrifio effeithiau cynhesu byd-eang **ar amgylcheddau naturiol**
MPA2.3 disgrifio effeithiau cynhesu byd-eang **ar amgylcheddau lled naturiol**
MPA2.4 disgrifio effeithiau cynhesu byd-eang ar **amgylcheddau o waith dyn**
MPA2.5 2.1 diffinio'r term **argyfwng hinsawdd**

---

## Ystod

MPA2.1 **effeithiau cynradd**

- lefelau'r môr yn codi
- rhewlifoedd yn toddi
- capiau iâ yn toddi
- sychderau
- diffeithdiro
- llifogydd
- digwyddiadau tywydd eithafol

MPA2.2 **effeithiau ar amgylcheddau naturiol**

- Arctig/Antarctig – iâ'n toddi
- coedwigoedd naturiol (trofannol a thymherus) – tanau fforest
- amgylcheddau stepdir – colli rhywogaethau
- amgylcheddau twndra – colli rhywogaethau
- amgylcheddau dyfrol (cefnfor a dŵr croyw) – mudiad rhywogaethau

MPA2.3 **effeithiau ar amgylcheddau lled naturiol**

- amgylchedd ffermio (amaethyddiaeth) – newidiadau i gynhyrchu cnwd
- coetir a fforest wedi'u reoli - tanau
- rhostir a gweundir – colli cynefinoedd
- cronfeydd dŵr - diffyg dŵr.

MPA2.4 **effeithiau ar amgylcheddau o waith dyn**

- dinasoedd – tymheredd uchel/isel
- trefi a phentrefi – newid poblogaeth
- seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd – defnyddio deunyddiau

- seilwaith trefol (e.e. rheoli carthffosiaeth) – capasiti

MPA2.5 **argyfwng hinsawdd**

- +1.5 gradd Celsius
- cynnydd tymheredd cyfartalog byd-eang
- canlyniadau dolenni adborth (e.e. tanau a chynhesu cefnforoedd)

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD3 Deall ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA3.1 disgrifio **ffynonellau naturiol** allyriadau nwyon tŷ gwydr
MPA3.2 disgrifio **ffynonellau o waith dyn** o allyriadau nwyon tŷ gwydr
MPA3.3 disgrifio allyriadau nwyon tŷ gwydr **byd-eang** a'r **DU**
MPA3.4 disgrifio **ffynonellau** allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU ar gyfer y sector

---

## Ystod

MPA3.1 **ffynonellau naturiol**

- llosgfynyddoedd
- tanau fforest
- cefnforoedd
- mannau dŵr croyw
- resbiradaeth planhigion
- resbiradaeth microbau pridd
- resbiradaeth anifeiliaid (gan gynnwys pobl)

MPA3.2 **ffynonellau o waith dyn**

- llosgi tanwyddau ffosil ar gyfer ynni
- defnyddio tanwydd ffosil mewn prosesau diwydiannol
- amaethyddiaeth (e.e. methan o dda byw)
- newid defnydd tir (e.e. mawndiroedd i laswelltir)

MPA3.3 **byd-eang a'r DU**

- allyriadau rhyngwladol
- Allyriadau'r DU yn ôl cenhedloedd datganoledig (Yr Alban, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)
- Allyriadau'r DU fesul sector

MPA3.4 **ffynonellau**

- mathau o'r allyriadau (carbon deuocsid, methan, ocsid nitraidd)
- ffynhonnell allyriadau (e.e. defnydd ynni, defnydd cynhyrchion, personél, cynnal a chadw a chau i lawr)
- ôl troed sectorau : adeiladu, iechyd, gofal, addysg, gweithgynhyrchu, diwydiant, cyllid, lletygarwch, hamdden, manwerthu, diwydiannau digidol neu gyfathrebu, gwallt a harddwch, chwaraeon

# Uned 205 Sero net

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 2 |
| **ODDA** | 30 |
| **Math asesiad:** | Aseiniad |
| **Nod:** | Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r targed sero net ar gyfer allyriadau carbon a sut mae'n perthyn i ddyfodol sgiliau gwyrdd. Byddant yn archwilio rheolaeth a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, ôl troed carbon a'r gyriannau polisi ar gyfer newid, yn ogystal â chymhwyso eu dealltwriaeth i'w sector astudiaeth |

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD1 Deall sut mae modd rheoli a lleihau allyriadau

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA1.1 esbonio **effeithiolrwydd defnyddio carbon** a'i rôl mewn rheoli allyriadau
MPA1.2 esbonio **cynhyrchu ynni adnewyddadwy** a'i rôl mewn allyriadau
MPA1.3 esbonio **effeithiolrwydd cipio carbon (dal a storio)** a'i rôl mewn rheoli allyriadau
MPA1.4 disgrifio'r dulliau o reoli allyriadau mewn **sectorau**

## Ystod

MPA1.1 **effeithlonrwydd defnyddio carbon**

- effeithiolrwydd proses (e.e. defnyddio ynni, gweithgynhyrchu, personél)
- dulliau o wella effeithlonrwydd (llai o garbon a/neu mwy o gynnyrch)

MPA1.2 **cynhyrchu ynni adnewyddadwy**

- solar
- hydro
- llanw
- hydrogen
- gwynt
- treuliad anaerobig
- dadansoddiad cylch bywyd carbon ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy

MPA.3 **cipio carbon (dal a storio)**

- coed (coetiroedd a fforest)

- gwrychoedd a thir prysgwydd (rhostir)
- priddoedd amaethyddol
- mawndiroedd
- cefnforoedd
- dulliau arloesol i gipio carbon

MPA1.4 **sectorau**
- trosolwg o allyriadau carbon mewn sectorau (adeiladu, iechyd, gofal, addysg, gweithgynhyrchu, diwydiant, cyllid, lletygarwch, hamdden, manwerthu, diwydiannau digidol neu gyfathrebu, gwallt a harddwch, chwaraeon)
- gwella effeithlonrwydd defnydd carbon
- potensial am ddefnyddio ynni adnewyddadwy
- cipio carbon

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD2 Deall allyriadau carbon sero net

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA2.1 diffinio'r term **sero net**
MPA2.2 esbonio effaith bosibl sero net mewn gwahanol gyd-destunau
MPA2.3 disgrifio **hanes** allyriadau carbon

---

## Ystod

MPA2.1 **sero net**
- diffiniad o sero net
- sero net fel y mae'n berthnasol i'r unigolyn
- sero net fel y mae'n berthnasol i fusnes
- sero net fel y mae'n berthnasol i sector penodol
- sero net fel y mae'n berthnasol i wlad benodol
- sero net o fewn cyd-destun byd-eang

MPA2.2 **effaith**
- allyriadau wedi'u mesur
- allyriadau wedi'u hadrodd gan sector
- allyriadau wedi'u hadrodd gan lywodraeth
- allyriadau wedi'u hadrodd i IPCC

MPA2.3 **hanes**
- allyriadau dros filoedd o flynyddoedd (cynhesu byd-eang a chyfnodau oeri byd-eang)
- allyriadau carbon cyn-ddiwydiannol
- effaith y chwyldro diwydiannol a thwf mewn allyriadau

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD3 Deall polisïau a thargedau sero net

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA3.1 nodi polisïau sero net a thargedau **sefydliadau rhyngwladol**
MPA3.2 nodi polisïau a thargedau sero net **cenedlaethol**
MPA3.3 nodi polisïau a thargedau sero net **sefydliadol**

---

## Ystod

MPA3.1 **sefydliadau rhyngwladol**

- y Cenhedloedd Unedig (UN) - swyddogaeth a phroses
- Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPPC) - swyddogaeth a phroses
- Cynhadledd y Partïon - proses a chytundebau

MPA3.2 **cenedlaethol**

- y Ddeddf Newid Hinsawdd (2008)
- Y Ddeddf Newid Hinsawdd ac Ynni Cynaliadwy (2006)
- Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (CCC)
- y targed sero net 2050
- polisïau datganoledig a rhanbarthol sero net

MPA3.3 **sefydliadol**

- polisi sefydliadol ar sero net
- rheoli carbon sefydliadol, lleihad a thargedau sero net
- polisïau sero net sectorau (e.e. cymdeithasau masnach)

---

## Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

CD4 Deall ôl troed carbon

## Meini prawf asesu

Mae'r dysgwr yn gallu:

MPA4.1 disgrifio beth yw **ôl troed carbon**
MPA4.2 deall y gwahanol **ffynonellau o garbon a gyfrifyddwyd** mewn ôl troed
MPA4.3 disgrifio sut mae sefydliadau a busnesau yn cyfrifyddu ôl troed carbon

---

## Ystod

MPA4.1 **ôl troed carbon**

- egwyddorion cyfrifyddu carbon
- cyfathrebu
- y dyfodol

MPA4.2 **ffynonellau carbon a gyfrifyddwyd**

- diffinio Cwmpasau 1, 2 a 3
- cyfrifyddu ar gyfer Cwmpasau 1, 2 a 3
- cipio carbon
- gwrthbwyso carbon

MPA4.3 **cyfrifyddu**

- sefydliadau a busnes (adeiladu, iechyd, gofal, addysg, gweithgynhyrchu, diwydiant, cyllid, lletygarwch, hamdden, manwerthu, diwydiannau digidol neu gyfathrebu, gwallt a harddwch, chwaraeon)
- ôl troed sector

# Atodiad 1 Perthynas i gymwysterau eraill

**Cysylltiadau â chymwysterau eraill**

Mae gan y cymhwyster hwn gysylltiadau â:

- City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Gwyrdd
- City & Guilds Lefel 2 Dyfarniad mewn Ôl-osod
- City & Guilds Lefel 2 Tystysgrif mewn Ôl-osod

**Adnoddau defnyddiol**

- https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy
- https://www.gov.uk/government/publications/environmental-and-sustainability-policy
- https://ukcop26.org/the-conference/cop26-outcomes/
- https://www.un.org/en/sustainable-development-goals

# Atodiad 2 Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol ar gyfer canolfannau sy'n darparu cymwysterau City & Guilds. Dylid cyfeirio atynt ar y cyd â'r llawlyfr hwn. I lawrlwytho'r dogfennau ac i ddod o hyd i ddogfennau defnyddiol eraill, ewch i ***Lyfrgell Dogfennau'r Ganolfan*** ar www.cityandguilds.com neu cliciwch ar y dolenni isod:

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Llawlyfr y Ganolfan***

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pob canolfan gymeradwy ac mae'n rhoi arweiniad i'w helpu i gyflawni ein cymwysterau. Mae'n cynnwys gwybodaeth ar

- Meini prawf sicrhau ansawdd y Ganolfan a gweithgareddau monitro
- Systemau gweinyddu ac asesu
- Timau cefnogi sy'n wynebu canolfannau yn City & Guilds / ILM
- Rolau a chyfrifoldebau sicrhau ansawdd y Ganolfan.

Dylid defnyddio Llawlyfr y Ganolfan i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau Contract y Ganolfan.

***Safonau Sicrhau Ansawdd: Asesiad y Ganolfan***

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion sicrhau ansawdd cyffredin gofynnol ar gyfer ein cymwysterau a reoleiddir a'n cymwysterau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n cynnwys cydrannau a asesir gan y ganolfan. Bydd canllawiau penodol hefyd yn cael eu cynnwys mewn llawlyfrau cymwysterau perthnasol a/neu ddogfennau asesu.

Mae'n ymgorffori ein disgwyliadau ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol canolfannau a'r dulliau sicrhau ansawdd allanol a ddefnyddiwn i sicrhau bod safonau asesu yn cael eu bodloni a'u cynnal. Mae hefyd yn manylu ar yr ystod o sancsiynau y gellir eu rhoi ar waith pan nad yw canolfannau'n cydymffurfio â'n gofynion, neu gamau a gymerir i gysoni marcio/asesu canolfannau â'r safonau gofynnol. Yn ychwanegol, mae'n rhoi arweiniad manwl ar weinyddiad diogel a dilys asesiadau canolfannau.

Mae ***Trefniadau mynediad*** - ***Pryd a sut y mae angen gwneud ceisiadau i City & Guilds*** yn rhoi manylion llawn am y trefniadau y gellir eu gwneud i hwyluso mynediad i asesiadau a chymwysterau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael addasiadau mewn asesiad.

Mae ***Llyfrgell Dogfennau'r Ganolfan*** hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel:

- Cynnal arholiadau
- Cofrestru dysgwyr
- Apeliadau a chamarfer

**Cysylltiadau defnyddiol**

Ewch i adran Cysylltu â Ni ar wefan City & Guilds, ***Cysylltu â ni***

## City & Guilds

Am fwy na 140 o flynyddoedd rydyn ni wedi gweithio gyda phobl, sefydliadau ac economïau i'w helpu i adnabod a datblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i ffynnu. Rydyn ni'n deall y cyswllt sy'n newid bywyd rhwng datblygu sgiliau, symudedd cymdeithasol, llewyrch a llwyddiant. Mae popeth a wnawn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant safon uchel, cymwysterau, asesiadau a nodweddion sy'n arwain at swyddi ac sy'n bodloni anghenion y diwydiant.

Rydyn ni'n partneru gyda'n cwsmeriaid i gyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith sy'n adeiladu hyfedredd i gefnogi gwell rhagolygon i bobl, sefydliadau a'r gymdeithas ehangach. Rydyn ni'n creu llwybrau dysgu hyblyg sy'n cefnogi cyflogadwyedd gydol oes, am ein bod yn creu bod pobl yn haeddu'r cyfle i (ail)hyfforddi ac (ail)ddysgu eto ac eto - gan ennill sgiliau newydd ar bob cam o fwyd, ym mhle bynnag maen nhw'n dechrau.

Mae brand cymunedau City & Guilds yn cynnwys Gen2, ILM, Interrain, Kineo a The Oxford Group.

## Hawlfraint

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac ni ellir ei chopïo, ei hatgynhyrchu na'i dosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds a dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- gall staff y ganolfan gopïo'r deunydd at ddibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds yn unig, neu at ddibenion gweinyddu mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r Amodau Copïo Safonol (gweler gwefan City & Guilds) hefyd mewn grym.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestredig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

City & Guilds of London Institute
Giltspur House
5-6 Giltspur Street
Llundain
EC1A 9DE

**cityandguildsgroup.com**